# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 23 MEHEFIN 2021, trwy Zoom.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth, ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Yr Athro Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Rebecca Edwards (tan gofnod 54); Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Dr Victoria Wright; Dr Sarah Wydall (tan gofnod 53); a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Dr Guy Baron; Yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; Yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen; Yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Dr Anoush Simon (tan gofnod 57.4); a'r Athro Andrew Thomas. |
| Yn gweinyddu: | Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd; a Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnodion 50 a 51). |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Simon Banham; Dr Sarah Higgins; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; a Ms Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber.

## 44. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Geoffrey Brown, cyn-Ddarlithydd yn yr Adran Addysg;
   2. John Dawes, Cymrawd Anrhydeddus;
   3. Sallie Jones, a weithiai ar y Prosiect Uwch-gynhyrchu Cyfryngau;
   4. Leontia Slay, cyn-Fiolegydd Môr ac aelod o'r Adran Sŵoleg;
   5. Miles Spink, a weithiai yn y Ganolfan Saesneg Ryngwladol;
   6. Christoffer Svendsen, myfyriwr ôl-raddedig yn yr Adran Mathemateg; a
   7. Yr Athro Emeritws Dennis Thomas, gynt o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes.

2. Llongyfarchion

1. Llongyfarchodd yr aelodau'r cydweithwyr a fu'n llwyddiannus yn y drefn dyrchafiadau academaidd yn ddiweddar:

    1. Yr Athro Hazel Davey;

    2. Yr Athro Sarah Davies; a

    3. Dr Sarah Wydall.

2. Llongyfarchwyd yr Athro Neil Glasser ar ei dderbyn yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.

**45. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**46. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 MAWRTH 2021 (SEN2021-058).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**47. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2021-059).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**48. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**49. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2021-060).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Ar 17 Mehefin 2021, roedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) wedi ystyried drafft y gyllideb sefydliadol am 2021-22. I gytuno ar fantoli'r gyllideb, yn unol â chais y

Cyngor, byddai angen i'r Brifysgol beidio â buddsoddi mewn mentrau i hybu gweithgaredd ymchwil. Mynegodd yr Is-Ganghellor ei siom â'r sefyllfa hon oherwydd bod mantoli cyllideb a thwf ymchwil ill dau yn amcanion strategol pwysig. Byddai drafft y gyllideb yn mynd i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 09 Gorffennaf 2021, ar y ddealltwriaeth y gwneir pob ymdrech yn y flwyddyn academaidd i ddod i ganfod cyllid tuag at fentrau i gefnogi a hyrwyddo gweithgaredd ymchwil.

3. Roedd nifer y ceisiadau i gael mynediad ym mis Medi 2021 gyda'r uchaf ers 2015, ac roedd y Brifysgol yn gweld cynnydd hefyd yn nifer y derbyniadau cadarn. Serch hynny, roedd perygl yn parhau na fyddai cyfran fawr o ymgeiswyr rhyngwladol yn cofrestru oherwydd y pandemig presennol. Roedd y Brifysgol yn dal i weithio gyda sefydliadau cyfatebol yn y sector ar ddull cyffredin i groesawu myfyrwyr o wledydd ar y 'rhestr goch' sy'n dymuno astudio yn y DG.

4. Cafodd rhestr o enwau cydweithwyr academaidd a fu'n llwyddiannus yn y drefn dyrchafiadau academaidd yn ddiweddar ei hatodi at yr adroddiad. Dywedodd yr Is-Ganghellor fod yr Athro Anwen Jones hefyd wedi ei dyrchafu i gadair bersonol a mynegodd ei llongyfarchiadau. Oherwydd ei swydd uwch yn aelod o Weithrediaeth y Brifysgol ni fyddai wedi bod yn briodol i'w hystyried am ddyrchafiad academaidd ochr yn ochr â'r ceisiadau eraill. Roedd yr Is-Ganghellor wedi sefydlu proses gyfochrog a oedd yn cynnwys cyfraniad gan aseswyr allanol.

**50. ADFYWIO'R STRATEGAETH SEFYDLIADOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2021-061).

NODWYD

1. Ar gais y Cyngor, bu'r Is-Ganghellor yn adolygu Strategaeth Sefydliadol 2018-23 gyda golwg ar nodi'r camau nesaf i symud y Brifysgol yn ei blaen tuag at yr uchelgeisiau a ddisgrifiwyd yn y Strategaeth honno.

2. Roedd yr adroddiad a baratowyd yn disgrifio gweledigaeth o'r hyn y gallai'r Brifysgol fod yn 2030, ac yn amlinellu'r prif gamau y byddai'n rhaid eu cymryd dros y ddwy neu dair blynedd nesaf tuag at gyflawni'r weledigaeth. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 19 Mawrth 2021, a gofynnir yn awr am adborth y Senedd ynglŷn â'r blaenoriaethau strategol a gynigiwyd.

3. Trafododd yr aelodau'r cynigion a nodwyd yn adroddiad yr Is-Ganghellor, a chafwyd adborth adeiladol ganddynt, yn cynnwys:

    1. Bod y Strategaeth a adnewyddwyd yn cynnig mwy o gynlluniau ar gyfer bod yn sefydliad 'gwyrdd', yn ogystal â'r camau a gynigir i fod yn garbon niwtral;

    2. Rhoi mwy o bwyslais ar uchelgeisiau'r Brifysgol i fuddsoddi yn yr isadeiledd, gan gyfeirio'n benodol at gynlluniau digidol (wrth gydnabod bod Strategaeth Ddigidol i'r sefydliad yn cael ei hystyried ar hyn o bryd gan y Cyngor, a bod ystyriaethau amgylcheddol yn gysylltiedig â'r meddylfryd digidol-yn-gyntaf);

    3. Gwella elfennau'r weledigaeth ar gyfer 2030 o ran cysylltiadau â'r gymuned, gan gynnwys ffyrdd y gallai'r Brifysgol annog mwy o ymwneud â'r ardal;

4. Gwneud yn glir sut y byddwn, fel sefydliad a dywysir gan ymchwil, yn ymgorffori ymchwil i'n haddysgu; a

5. Ymgorffori uchelgeisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r weledigaeth ar gyfer 2030, er enghraifft sut y bydd ein staff a'n myfyrwyr yn fwyfwy cynrychioliadol.

4. Diolchodd yr Is-Ganghellor i'r aelodau am eu hadborth, gan ddweud mai'r bwriad oedd cyflwyno fersiwn ddiwygiedig y ddogfen i'r Cyngor yn yr hydref 2021 i'w chymeradwyo'n ffurfiol.

**PENDERFYNWYD**

5. Y dylai aelodau'r Senedd ymgynghori â'u cydweithwyr yn yr adrannau ynglŷn â'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau ar Adnewyddu'r Strategaeth Sefydliadol, ac anfon unrhyw adborth pellach i Swyddfa'r Is-Ganghellor erbyn canol mis Awst 2021 [**GWEITHREDU:** Aelodau'r Senedd].

**51. PEN-BLWYDD YN 150**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (SEN2021-062).

NODWYD

1. Yn 2022, byddai'r Brifysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 150. Disgrifiai'r adroddiad y digwyddiadau dathlu sy'n cael eu trefnu yn 2022-23, yr ymdrechion i gyhoeddi cyfrol ddathlu, cynlluniau brandio, a phrif gerrig milltir y Prosiect Dathlu 150.

2. Hefyd yn 2022, byddai Canolfan y Celfyddydau'n dathlu ei 50fed pen blwydd, ac roedd digwyddiadau i nodi hynny'n cael eu cynnwys yn y dathliadau 150. Oherwydd mai Mathemateg oedd un o'r pynciau cyntaf a ddysgwyd yn y Brifysgol ym 1872, byddai'r adran honno yn rhan bwysig o'r dathliadau hefyd.

3. Gwahoddwyd yr aelodau i roi adborth ynglŷn â'r rhaglen arfaethedig am 2022-23, a fyddai'n cynnwys hefyd gobeithio ailagor yr Hen Goleg ar ei newydd wedd, pe byddai'r prosiect hwnnw'n datblygu yn ôl y cynllun.

4. Byddai'r cynigion ar gyfer y 150 mlwyddiant nawr yn cael eu caboli, cyn ymgynghori'n ehangach â staff a myfyrwyr. Ond, cydnabuwyd y byddai'n rhaid cadarnhau cynlluniau'r Brifysgol cyn gynted â phosibl er mwyn gallu rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen a neilltuo dyddiadau penodol mewn dyddiaduron.

**52. MODEL DYRANNU A RHEOLI LLWYTH GWAITH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd) (SEN2021-063).

NODWYD

1. Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod blaenorol y Senedd ynglŷn â chynigion i ddiwygio'r Model Llwyth Gwaith, roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a

Bywyd) wedi arwain ymgynghoriad pellach â Phenaethiaid Adrannau Academaidd. Roedd y fersiwn ddiwygiedig nawr yn cael ei chyflwyno i'w hystyried gan y Senedd.

2. Roedd y fersiwn hon o'r Model yn llai manwl na'r fersiwn flaenorol a gyflwynwyd. Yn wir, teimlai'r aelodau bod y cynnig hwn, i bob pwrpas, yn fersiwn well o'r Model gwreiddiol, gan ychwanegu gallu i'r adrannau i ffurfioli tariffau hyblyg yn y polisi.

3. Croesawodd yr aelodau'r fersiwn ddiwygiedig, a oedd yn cydnabod gwahanol feintiau'r adrannau academaidd ac amrywiaeth y swyddogaethau o fewn yr adrannau. Croesawyd hefyd y newidiadau i gylch gorchwyl Grŵp Arolygu'r Model Llwyth Gwaith oherwydd bod hynny wedi mynd i'r afael â'r rhagfarn flaenorol ymddangosiadol o blaid addysgu.

4. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adeg y byddai adrannau'n llenwi'r Model bob blwyddyn. Cydnabuwyd ei bod yn anodd yn aml cwblhau'r Model tan i adrannau wybod nifer eu myfyrwyr yn yr hydref, ac nid oedd y broses hon bob amser yn cyd-daro ag adolygiadau'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol.

5. Holwyd ynglŷn â nifer yr oriau gwaith blynyddol a enwir yn y Model ar gyfer gweithgaredd, yn enwedig yng nghyd-destun dymuniad y Brifysgol i roi digon o amser i staff academaidd ymgymryd ag ymchwil, fel yr amlinellwyd yng ngweledigaeth arfaethedig y sefydliad am 2030. Bydd angen i Grŵp Arolygu'r Model roi ystyriaeth bellach i hyn.

**PENDERFYNWYD**

6. Cymeradwyo'r Model Llwyth Gwaith diwygiedig a gynigiwyd, yn amodol ar fân newidiadau i adlewyrchu adborth a gafwyd gan aelodau'r Senedd yn ystod y drafodaeth [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd)].

## 53. SIARTER Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2021-064).

NODWYD

1. Mae'r Cyngor Cyllido yn mynnu bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn cytuno ar Siarter Myfyrwyr. Dylai hon fod yn ddogfen bartneriaeth lefel-uchel sy'n gymwys i gorff amrywiol o fyfyrwyr, ac sy'n rhoi dolenni a chyfeirio at fwy o wybodaeth fanylach, er enghraifft rheoliadau, cymorth i fyfyrwyr, a gwybodaeth am gyrsiau. Cyhoeddir Siarter Myfyrwyr y Brifysgol ar wefan y sefydliad.

2. Mae'r Cyngor Cyllido yn disgwyl i'r sefydliadau adolygu Siarter y Myfyrwyr yn flynyddol, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr.

3. Cafodd Siarter Myfyrwyr y Brifysgol ei adolygu a'i ddiwygio ym mis Awst 2020, mewn ymateb i ganllawiau ychwanegol gan y Cyngor Cyllido. Cafodd darpariaethau'r Siarter eu hadolygu'n fwy diweddar mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr, a'r farn oedd nad oedd angen newidiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.

**PENDERFYNWYD**

4. Cadw geiriad cyfredol Siarter y Myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

## 54. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2021-065).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 08 Mehefin 2021. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. <u>Dewisiadau ynglŷn â dull gweithredu'r Byrddau Arholiad ar ôl y pandemig</u>.

    1. Roedd y Bwrdd Academaidd wedi cymeradwyo cynnig y dylid cynnal Byrddau Arholiad ar-lein yn y dyfodol ar ôl eu cynnal yn llwyddiannus ar-lein trwy Microsoft Teams yn ystod y pandemig.

    2. Ond cydnabuwyd hefyd y ceir adegau pryd y byddai'n fwy priodol i arholwr allanol ymweld â'r Brifysgol - er enghraifft: yn achos perfformiad byw, neu i feithrin cysylltiadau yn y Brifysgol wrth ymgymryd â swydd arholwr allanol am y tro cyntaf. Ar adegau o'r fath, gallai'r adrannau ofyn am gael cynnal Byrddau Arholi wyneb yn wyneb, gan ddisgwyl na fyddai ceisiadau rhesymol yn cael eu gwrthod.

    3. Cafodd yr hyblygrwydd a ddeuai yn sgil y datblygiad newydd hwn ei groesawu gan yr aelodau, gan gynnwys y posibilrwydd i benodi unigolion yn arholwyr allanol na fyddent fel arfer yn gallu teithio i Aberystwyth, a thrwy hynny gynyddu amrywiaeth.

3. <u>Amgylchiadau Arbennig ac Estyniadau</u>

    1. Pan ystyriodd y Senedd y trefniadau asesu am y sesiwn gyfredol, roedd mater ailddechrau defnyddio ffurflenni Amgylchiadau Arbennig yn agwedd a adawyd yn agored ar gyfer cyfnod yr asesiadau atodol.

    2. Ar ôl ymgynghori ag adrannau, roedd y Bwrdd Academaidd yn argymell ailddechrau defnyddio polisïau Amgylchiadau Arbennig ac Estyniadau cyn cyfnod Cofid, a oedd yn mynnu bod myfyrwyr yn cyflwyno ffurflenni Amgylchiadau Arbennig a cheisiadau am estyniadau, ynghyd â thystiolaeth, ar gyfer cyfnod yr asesiadau ategol ac ar ôl hynny.

    3. Ar yr un pryd, byddai rhestr y dystiolaeth dderbyniol yn cael ei hehangu, a byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru i adlewyrchu'r angen i reoli'r prosesau'n electronig.

    **PENDERFYNWYD**

    4. Cymeradwyo ailddechrau defnyddio polisïau Amgylchiadau Arbennig ac Estyniadau cyn cyfnod Cofid ar gyfer yr asesiadau ategol ac wedi hynny, ynghyd â diweddaru'r wefan ac anfon gwybodaeth briodol at fyfyrwyr [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick].

4. Ychwanegiad at y Rheoliadau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol

1. Yn dilyn trafodaethau â Swyddog Uniondeb Academaidd y Brifysgol, argymhellodd y Bwrdd Academaidd y dylai'r Senedd gymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r rheoliadau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol:

   1. cadw'r dewis i gynnal panelau ar-lein ar ôl COVID-19;

   2. newid y cosbau er mwyn dileu anghyfartaledd yn achos myfyrwyr ar gyrsiau sy'n mynnu bod yn rhaid pasio'r holl gredydau;

   3. caniatáu lleihau cosb am drosedd gyntaf mewn rhai achosion; a

   4. caniatáu derbyn adroddiadau TII mewn achosion sy'n cael eu harchwilio gan Gadeirydd Bwrdd Arholi'r adran.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick].

5. Datganiad ar Ganlyniadau Gradd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2021-066).

NODWYD

1. Mae'n rhaid i bob Prifysgol gyhoeddi Datganiadau o Ganlyniadau Gradd. Cymeradwywyd Datganiad cyntaf y Brifysgol o Ganlyniadau Gradd yng ngwanwyn 2020, gan gyflwyno data ynglŷn â 2018-19. Cafodd y Datganiad ar Ganlyniadau Gradd ei ddiwygio ers hynny i adlewyrchu data am 2019-20.

2. Dros y 4 blynedd diwethaf cafwyd cynnydd cyffredinol o 13% yn nifer y graddau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth Uwch, ac mae hyn wedi arwain at gwymp cyfatebol yn y graddau eraill. Gellid cynnig nifer o ffactorau i esbonio hyn, gan gynnwys yr ymateb i bandemig COVID-19 gan fod llai o arholiadau a mwy o asesiadau parhaus wedi'u cynnal, a chynnydd yn nifer myfyrwyr yn ailsefyll modiwlau i gael canlyniad gwell.

3. Nid oedd yn rhaid i sefydliadau gyhoeddi Datganiadau diwygiedig o Ganlyniadau Gradd yn flynyddol. Nid oedd yn fwriad gan sefydliadau eraill yn y sector i gyhoeddi Datganiadau diwygiedig eleni oherwydd y ffordd yr oedd y mesuriadau a fabwysiadwyd y llynedd i ymateb i COVID-19 wedi gogwyddo'r canlyniadau. Byddai'r Brifysgol yn gwneud yr un peth.

6. Datganiad Blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, yn ymgorffori drafft y Datganiad Blynyddol am 2019 (SEN2021-067).

NODWYD

Roedd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch bellach wedi cyhoeddi ei Datganiadau Blynyddol i ddarparwyr addysg uwch am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2020. Atodwyd copi o Ddatganiad Blynyddol y Brifysgol at yr adroddiad, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth.

7. Cyflwyniad Blynyddol UMAber

DERBYNIWYD

Adroddiad Cyflwyniad Blynyddol gan UMAber (SEN2021-068).

NODWYD

1. Roedd UMAber wedi paratoi adroddiad ei Chyflwyniad Blynyddol, a oedd yn cynnwys cyfres o atodiadau yn dystiolaeth o adborth, wedi'i grynhoi gan UMAber trwy'r flwyddyn, o amryw ffynonellau i glywed barn myfyrwyr. Roedd yr atodiadau hyn wedi eu rhoi ar SharePoint (yn SEN2021-080).

2. Er mai Swyddog Materion Academaidd yr Undeb a ddrafftiodd yr adroddiad, roedd yn adlewyrchu cyfraniadau gan yr holl randdeiliaid yn UMAber.

3. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr), a fyddai'n paratoi ymateb ffurfiol ar ran y Brifysgol i'w gyhoeddi ym mhapurau cyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Gorffennaf 2021.

**55. BWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

1. Adroddiad o Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2021-069).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 29 Ebrill a 10 Mehefin 2021.

2. Adroddiad Blynyddol ar Weithgareddau Partneriaethau

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd; Pennaeth Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol; Pennaeth y Swyddfa Cyfleoedd Rhyngwladol; a Phennaeth y Ganolfan Iaith Saesneg (SEN2021-070).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn nodi statws y partneriaethau presennol rhwng y Brifysgol a darparwyr eraill, y partneriaethau a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn flaenorol, a'r rhai a oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Roedd yr Adroddiad hefyd yn cynnwys adroddiadau blynyddol ar weithgaredd y swyddfa Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol, y swyddfa Cyfleoedd Rhyngwladol a'r Ganolfan Iaith Saesneg yn ystod 2020-21.

2. Cafodd yr adroddiad ei groesawu gan yr aelodau, a byddai copi'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor er gwybodaeth.

3. Cylch Gorchwyl

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2021-071).

NODWYD

Roedd Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol wedi argymell diwygiadau i'w gylch gorchwyl er mwyn cynnwys dwy swyddogaeth ychwanegol ymhlith aelodau'r Bwrdd, ac i roi eglurhad gwell am y gweithgareddau y mae'r Bwrdd yn gyfrifol am eu harolygu ar ran y Senedd.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig i Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd].

## 56. ADRODDIAD O'R BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead (SEN2021-072).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ar 09 Mehefin 2021. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Cadarnhau a Chlirio

Oherwydd bod y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 10 Awst 2021 - sy'n ddydd Mawrth - dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'n rhaid cynnal y cyfarfod Cadarnhau Ar-lein i Diwtoriaid Derbyn Adrannol i ystyried ymgeiswyr a gafodd ganlyniadau o dan y trothwy y cytunwyd arno, ar y dydd Sul (08 Awst 2021).

3. Cylch Gorchwyl

Roedd y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr wedi argymell diwygiad bach i'w Gylch Gorchwyl er mwyn cynnwys y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd yn un o'r aelodau.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig i'r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr [**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead].

## 57. ADRODDIAD O'R PWYLLGOR YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Monitro Ymchwil a'r FfRhY (SEN2021-073).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil ar 11 Mawrth, ac 11 Mehefin 2021.

2. Canolfan Dyfodol Gwledig

   Roedd Canolfannau Dyfodol Gwledig yn cael eu datblygu i ddangos ymrwymiad y Brifysgol mewn themâu rhyngddisgyblaethol, i hyrwyddo diddordeb mewn themâu rhyngddisgyblaethol, ac i fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang. Dywedwyd wrth yr aelodau er bod Canolfannau Ymchwil Rhyngddisgyblaethol wedi bodoli am y rhan fwyaf o gyfnod y FfRhY, y byddai creu nifer fach o ganolfannau llai yn atgyfnerthu sefyllfa'r Brifysgol yn allanol.

3. Rhwydwaith Arloesi Cymru

   1. Y diwrnod canlynol (24 Mehefin 2021), byddai Rhwydwaith Arloesi Cymru'n cael ei lansio'n ffurfiol gan Brifysgolion yng Nghymru, mewn ymateb i adroddiad yr Athro Graeme Reid 2020 a oedd yn argymell creu menter newydd i fanteisio ar amrywiaeth gallu ymchwil ac arloesi Cymru trwy gyfrwng cydweithrediadau.

   2. Roedd Dirprwy Is-gangellorion yng Nghymru â chyfrifoldeb am ymchwil wrthi'n datblygu manylion gweithgareddau arfaethedig y Rhwydwaith, ond y bwriad oedd cefnogi arloesi a chydweithredu.

4. Cylch Gorchwyl

   Roedd y Pwyllgor Ymchwil wedi argymell y dylid ailenwi'r Pwyllgor a'r Grŵp Gorchwyl cysylltiedig, a'u galw'n Bwyllgor Ymchwil ac Arloesi, a Grŵp Gorchwyl Ymchwil ac Arloesi. Awgrymwyd ehangu cylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl i gynnwys gweithredu'r strategaeth Ymchwil ac Arloesi.

   **PENDERFYNWYD**

   Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylchoedd gorchwyl y Pwyllgor a'r Grŵp Gorchwyl [**GWEITHREDU:** Y Tîm Monitro Ymchwil a'r FfRhY].

5. Cynllun Gweithredu'r Concordat Ymchwil

   1. Yn ystod 2020, llofnododd y Brifysgol y Concordat Datblygu Ymchwilwyr, a oedd yn rhwymo'r sefydliad i roi 10 diwrnod o hyfforddiant i ymchwilwyr bob blwyddyn. Erbyn hyn, datblygwyd Cynllun Gweithredu a roddai fraslun o amserlenni a dulliau ar gyfer darparu'r 10 diwrnod, gyda sylw dyladwy i'r Model Dyrannu Llwyth Gwaith.

   2. Croesawyd y datblygiad hwn gan yr aelodau, a fu'n ystyried dulliau y gellid rhoi'r Cynllun ar waith. Pwysleisiwyd cyfraniad y staff sy'n Athrawon a'r rhai â swyddogaethau Prif Ymchwilwyr yn y cyswllt hwn.

   3. Dylid ystyried bod y Cynllun Gweithredu yn ddogfen i'w diwygio yn ôl yr angen. Byddai'r Grŵp Llywio a sefydlwyd ar gyfer y Concordat yn cadw golwg ar y cynnydd a wneir o'i gymharu â'r Cynllun Gweithredu, ac yn gwneud mân ddiwygiadau iddo dros amser.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo Cynllun Gweithredu arfaethedig y Concordat Ymchwil [**GWEITHREDU:** Y Tîm Monitro Ymchwil a'r FfRhY].

**58. MATERION LLYWODRAETHU**

1. Canlyniadau holiadur hunanasesu'r Senedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2021-074).

NODWYD

1. Rhwng 24 Mai a 04 Mehefin 2021, gwahoddwyd aelodau'r Senedd i lenwi holiadur er mwyn rhoi adborth adeiladol ynglŷn â gweithrediad y corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Roedd y canlyniadau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a chawsant eu trafod gan yr aelodau yn ystod y cyfarfod.

2. Roedd graddfa gyffredinol yr ymateb wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac roedd hyn yn siomedig.

3. I ymateb i'r adborth a gafwyd yn rhan o'r holiadur, byddai Ysgrifennydd y Brifysgol yn adolygu hyd y papurau ar gyfer cyfarfodydd y Senedd yn y dyfodol, yn ogystal â chymryd camau i gynyddu amlygrwydd materion cysylltiedig ag ymchwil ar yr agenda [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

2. Canlyniadau etholiadau i'r Senedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2021-075).

NODWYD

1. Byddai 3 o aelodau'r Senedd yn dod i ben eu tymor cyfredol yn gynrychiolwyr adrannau academaidd. Cynhaliwyd etholiadau felly i ethol neu ailethol unigolion i gynrychioli'r adrannau hyn am gyfnod yn dechrau 01 Medi 2021.

2. Roedd dull cynnal yr etholiad, yn ogystal ag enwau'r unigolion a etholwyd, wedi'u nodi yn yr adroddiad.

**59. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2021-076);

2. Grantiau Ymchwil (SEN2021-077); a

3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2021-078).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**60. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2021-079):

1. Y Bwrdd Academaidd (08 Mehefin 2021);
2. Y Bwrdd Marchnata a Derbyn Myfyrwyr (09 Mehefin 2021);
3. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (29 Ebrill; a 10 Mehefin 2021);
4. Y Pwyllgor Ymchwil (29 Mawrth; ac 11 Mehefin 2021); a
5. Y Cyngor (14 Mai 2021).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

**61. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

1. Ffarwelio

   Hwn fu'r cyfarfod olaf o'r Senedd i'r cynrychiolwyr myfyrwyr canlynol - byddai pob un yn dod i ben eu tymor yn swyddogion sabothol yn UMAber ar 30 Mehefin 2021, a diolchwyd i bob un am eu cyfraniadau i'r Senedd dros y flwyddyn a aeth heibio:

   1. Moc Lewis, Llywydd UMCA;
   2. Nate Pidcock, Llywydd UMAber; a
   3. Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber.

2. Diwrnod Encil y Senedd

   Cyfarfod nesaf y Senedd fyddai diwrnod encil y corff ar 29 Medi 2021. Os yw'r cyfyngiadau'n caniatáu hynny, y bwriad fyddai cynnal y digwyddiad wyneb yn wyneb.